John Curwen 1816–1880

Addysgwr cerddorol, hyrwyddwr Sol-ffa

Ganwyd John Curwen ar 14 Tachwedd 1816 yn Heckmondwike, Swydd Efrog, yn fab hynaf i Spedding a Mary Curwen. Roedd ei dad yn weinidog Annibynnol a hanai o deulu enwog o Cumberland. Treuliodd John Curwen y rhan fwyaf o'i blentyndod yn Hackney, Middlesex, ac yna yn Frome, Gwlad yr Haf. Derbyniodd addysg gynnar yn Ham, Surrey, ac yn Frome cyn mynd yn un ar bymtheg oed i Goleg Wymondley yn Swydd Hertford i gael ei hyfforddi fel gweinidog Annibynnol. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach symudodd y coleg i Lundain a newidiwyd ei enw i Goleg Coward. Ym 1838 penodwyd ef yn weinidog cynorthwyol yn Basingstoke lle y cadwai ysgol fechan. Fe gafodd swydd debyg yn Stowmarket dair blynedd yn ddiweddarach ond oherwydd salwch bu'n rhaid iddo ymddiswyddo ar ôl deunaw mis ac aeth i fyw am flwyddyn gyda'i dad yn Reading. Daeth yn gyfrifol am eglwys Gynulleidfaol Plaistow, Llundain, ym 1844 ac arhosodd yno hyd 1864.

Yn ystod dyddiau cynnar ei weinidogaeth roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn addysgu. Darllenodd weithiau Pestalozzi, David Stow ac eraill ac yr oedd ganddo wybodaeth eang o fethodoleg a seicoleg addysg. Dechreuodd hefyd ymddiddori yng ngwerth addysgol a moesol cerddoriaeth a chan nad oedd yn gallu darllen hen nodiant ymchwiliodd i ddulliau amrywiol o ddysgu'r pwnc. Ym 1840 rhoddwyd iddo gopi o *A Scheme to Render Psalmody Congregational* (1835). Cyhoeddwyd hwn yn ddienw gan Sarah Anna Glover a oedd wedi datblygu dull llwyddiannus o hyfforddiant cerddorol yn yr ysgol yn Norwich lle y dysgai. Wrth siarad mewn cynhadledd i athrawon Ysgol Sul gofynnwyd iddo beth oedd y dull gorau i ddysgu cerddoriaeth. Arweiniodd hyn ef i astudio llyfr Glover yn fanwl. Mabwysiadodd ei nodiant gan gyhoeddi addasiad ohono mewn cyfres o erthyglau yn yr *Independent Magazine* ym 1842 a'i alw am y tro cyntaf yn 'tonic sol-ffa'. Priododd Mary Thompson, merch masnachwr o Fanceinion, ym 1845 ac fe gawsant dri o blant. Cyhoeddodd ei gyfrol *Singing for Schools and Congregations* ym 1843 ac yn sgil hynny cynyddodd y defnydd o'r tonic sol-ffa. Un o'r rhesymau am y twf oedd

cyfres o erthyglau gan Curwen yn y *Popular Educator* oedd â chylchrediad mawr. Ym 1853 amcangyfrifwyd bod dwy fil o bobl yn dysgu tonic sol-ffa. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach yr oedd wedi cynyddu yng ngwledydd Prydain i 186,000 ac wedi lledu dramor. Ym 1853 dechreuwyd cyhoeddi'r *Tonic Sol-Fa Reporter* ac ym 1855 ymwelodd Curwen â'r Alban er mwyn darlithio ar y nodiant newydd.

Torrodd ei iechyd ym 1856 ac aeth i'r Almaen a'r Swistir am gyfnod o saith mis i geisio gwellhad. Wedi iddo ddychwelyd i Loegr cododd £3,000 i godi capel newydd yn Plaistow. Pan ddechreuodd y rhyfel cartref yn America ochrodd gyda'r gogledd gan gyhoeddi pamffledi a sefydlu'r Freed Slaves' Aid Society cyntaf yn Lloegr. Aeth ati i sefydlu gwasg yn Plaistow er mwyn cynorthwyo gyda'r holl waith cyhoeddi. Ymddiswyddodd fel gweinidog ym 1864 er mwyn canolbwyntio yn llwyr ac yn gyfan gwbl ar gerddoriaeth. Parhâi i addasu a gwella ei system sol-ffa a darlithio trwy wledydd Prydain. Ym 1866 fe'i penodwyd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Anderson, Glasgow, ac yn Awst 1873 ef oedd un o'r beirniaid yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn yr Wyddgrug. Datblygodd y gwaith ymhellach trwy sefydlu Coleg Sol-ffa a chorff arholi oedd yn safoni gwaith yr athrawon oedd yn dysgu'r system. Roedd llawer o gerddorion proffesiynol yn dilorni'r nodiant sol-ffa ond er hynny fe gafodd gydnabyddiaeth swyddogol gan awdurdodau addysg.

Bu farw pan oedd ar ymweliad â'i frawd yng nghyfraith yn Heaton Mersey, Swydd Gaerhirfryn (Lancashire), ar 26 Mai 1880. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y City of London, Ilford.